# 23. Y GARDDWR

**Darllen:** Marc 16: 9-11;
Ioan 20: 1-18

Yna, cofiodd Mair Magdalen am ei dyletswydd gan fynd a dweud wrth Ioan a Pedr. Rhuthrodd y ddau at yr ardd gyda Mair yn eu dilyn. Ioan gyrhaeddodd yn gyntaf, gan sefyll y tu allan i'r bedd. Cyrhaeddodd Pedr wedyn gan fentro i mewn a gweld y llieiniau a'r cadachau a fu ar y corff. Daeth Ioan ar ei ôl gan weld a chredu! Y disgybl '*yr oedd Iesu yn ei garu'* oedd y cyntaf i gredu yn y Crist atgyfodedig.

Arhosodd Mair yn yr ardd. Edrychodd i mewn i'r bedd a gweld yr hyn a welodd y lleill, gan barhau i wylo. Ni chymerodd lawer o sylw o'r un a fu'n ei holi pan ofynnodd rhywun iddi, '*Wraig, pam wyt yn wylo*?' Meddyliodd mai'r garddwr oedd yno; pwy arall ond garddwr fyddai mewn gardd gyda'r wawr? Yn ôl y Tadau Cynnar, roedd Mair yn iawn i feddwl hynny gan fod y Dyn hwn yn agor drws Gardd Eden i'r ddynoliaeth unwaith eto. '*Syr*,' medd Mair, '*Os ti a'i cymerodd ef, dywed wrthyf lle y rhoddaist ef i orwedd, ac fe'i cymeraf ef i'm gofal.*' Rhyfeddod yn wir: Mair wyneb yn wyneb â'r person mwyaf yn ei bywyd, yr hwn a'i gwaredodd hi ac a roddodd fywyd newydd iddi, a hithau ddim yn ei adnabod. Wrth gwrs, chwilio am gorff marw yr oedd, ac am ei bod yn chwilio am yr Iesu a fu farw, yr oedd hi'n amhosibl iddi adnabod y Crist byw. Ni sylweddololodd mai Crist oedd yno am ei bod yn edrych i gyfeiriad anghywir, tua'r llawr a thua'r gorffennol. Nid yn yr ardd yr oedd ei chalon a'i ffydd ond ar y bryn ofnadwy hwnnw y tu allan i'r ddinas, yn wylo o flaen croesbren ei Harglwydd.

Pan glywodd y llais annwyl a chyfarwydd yn dweud ei henw '*Mair*', sylweddololodd ar unwaith mai Crist oedd yn sefyll o'i blaen, h.y. llwyddodd i'w ddarganfod ar ôl i Grist ei darganfod hi yn yr ardd yn gyntaf. '*Ni fuasech yn chwilio amdanaf fi oni bai i mi yn gyntaf chwilio amdanoch chwi*' (Awstin Fawr). Yng ngeiriau Iesu ei hun: '*Daeth Mab y Dyn i geisio ac achub y colledig*' (Luc 19: 10). '*Rabbwni, Athro'*, medd Mair, yr hen enw annwyl – dyma'r tro olaf i deitl y disgyblion amdano gael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd; '*Arglwydd*' a '*Christ*' oedd enw'r apostolion arno wedyn. Dechreuodd symud ato er mwyn taflu ei breichiau amdano a'i gofleidio, ond cyn iddi lwyddo i wneud hynny, dywedodd ef wrthi: '*Paid â glynu wrthyf!'* Ni all neb droi'r cloc yn ôl;

roedd dyddiau Iesu o Nasareth drosodd a phennod newydd ar fin agor. Cyn hir ni chafodd neb ei weld yn y corff, na chlywed ei lais gyda'u clustiau, na theimlo cyffyrddiad ei law. Rhaid i'w ddilynwyr o hyn allan ddibynnu ar ffydd a phrofiadau ffydd, ffydd wedi ei seilio ar realiti'r Crist byw. Rhaid iddi hi, fel holl ddilynwyr Crist, ymddiried ynddo, ufuddhau iddo, ei garu a'i wasanaethu. Rhaid i Mair a'r lleill ddysgu sefyll ar eu traed eu hunain, yng nghwmni ei gilydd, gan ymddiried eu bywydau yn gyfan gwbl i faddeuant, trugaredd a chariad Arglwydd yr hollfyd – i ras Duw. Os mai dyn, sef Ioan oedd y cyntaf i gredu, y ferch 'Mair Magdalen' oedd y cyntaf i gyfarfod â'r Crist atgyfodedig, '*ac aeth Mair i gyhoeddi'r newydd i'r disgyblion. 'Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd,' meddai, ac eglurodd ei fod wedi dweud y geiriau hyn wrthi.' '*Pwy all gadw'n dawel gyda'r fath newyddion ar ôl y fath gyfarfod? Gwrthododd y disgyblion dderbyn yr hyn a ddywedodd Mair wrthynt. Gwell ganddynt, fel llawer un arall, ymdrybaeddu yn eu tristwch a'u heuogrwydd.

**Gweddi:**
*Bywiol Arglwydd, concwerwr pechod ac angau,*
*tyrd atom yn dy rym atgyfodedig*
*a gwna dy hun yn hysbys i ni.*
*Llefara dy air o dangnefedd i'n calonnau.*
*Dangos i ni dy ddwylo a'th ystlys clwyfedig*
*a danfon ni allan i'th wasanaethu yn nerth yr Ysbryd Glân;*
*er gogoniant dy enw. Amen.*
*(Frank Colquhoun)*